



**Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus Gwent**

Crynodeb gweithredol

Asesiad Llesiant Gwent



Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Gwent	5
3.	Llesiant cymdeithasol.....	8
3.1	Amddifadedd	8
3.2	Tai.....	10
3.3	Iechyd.....	13
3.4	Diogelwch cymunedol	15
3.5	Addysg	17
3.6	Trafnidiaeth	19
4.	Llesiant economaidd	21
5.	Llesiant amgylcheddol.....	24
6	Llesiant diwylliannol.....	28

1. Cyflwyniad

Mae asesiad llesiant Gwent yn dweud wrthym am bob agwedd ar lesiant ledled Gwent ac yn ystyried sut y mae'n fwyaf tebygol o ddatblygu yn y dyfodol yn seiliedig ar heriau megis gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd, poblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldeb iechyd, bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol, a newid hinsawdd. Bydd ein hymateb ar y cyd i'r heriau hirdymor hyn yn effeithio ar lesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r asesiad yn cwmpasu tair ardal awdurdod lleol wahanol iawn ac yn cynnwys ardaloedd cefn gwlad, canolfannau trefol a chymunedau'r cymoedd. Mae gan bob ardal ei chryfderau a'i heriau unigryw ei hun sy'n gysylltiedig â'i phrofiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Er mwyn ein helpu i ddeall ac esbonio'r gwahaniaethau yn ein cymunedau, mae asesiadau lleol wedi cael eu cynnal hefyd, i roi gwybodaeth i ni am ffactorau sy'n dylanwadu ar lesiant y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ni feddwl yn lleol am ffyrdd o roi atebion ac ymyriadau wedi'u teilwra ar waith ar gyfer rhai o'n cymunedau, yn ogystal â chydweithio ar faterion sy'n effeithio ar y rhanbarth cyfan.

Rydym wedi gwneud llawer o ymdrech i ystyried llesiant mewn ffordd gydgyssylltiedig, wedi cydweithio'n eang i gynnal yr asesiad hwn, ac wedi cynnwys pobl sy'n byw ac yn gweithio yn ein cymunedau.

Mewn rhannau o'n cymunedau, mae'r data'n dweud wrthym fod llesiant yn dda:



Mae gan Went economi amrywiol sydd mewn sefyllfa dda i gyfrannu at ddiwydiannau'r dyfodol, gan gynnwys cyfrannu at bontio i Gymru ddi-garbon a darparu swyddi da ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Mae diwylliant a threftadaeth gyfoethog Gwent yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi llesiant pobl, o ddod â phobl ynghyd, helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a chynnig cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd, i helpu pobl i ddilyn ffyrdd iach o fyw a mwynhau'r amgylchedd. Hefyd, mae Gwent mewn sefyllfa dda i gyfrannu at sector yr economi greadigol ac at ffyniant y rhanbarth yn y dyfodol.



Mae ein cymunedau yn gryf, ac mae llawer o bobl yn teimlo'n gysylltiedig â'u cymdogaethau ac yn falch o'u hardal leol. Yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, rydym wedi gweld ein cymunedau'n dod ynghyd i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed, boed yn deulu, ffrindiau neu gymdogion.



Mae amgylchedd naturiol nodedig ac eiconig Gwent yn adnodd sylweddol sy'n cynnig cynefin cyfoethog a bioamrywiol i blanhigion, mamaliaid ac infertebratau. Mae'n cynnwys Gwastadeddau Gwent, Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy a rhan o

Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sydd i gyd yn denu llawer o ymwelwyr i Went.

Mae'r asesiad llesiant hefyd yn tynnu sylw at anghydraddoldeb sy'n bodoli yn ein cymunedau, a allai effeithio ar bob agwedd ar lesiant, a hynny ar lefel bersonol ac ar lefel gymunedol. Hefyd, ceir amrywiaeth o heriau a allai ehangu'r anghydraddoldebau hyn yn y dyfodol a chael effaith negyddol ar lesiant.

Mae gan bobl sy'n byw mewn cymunedau mwy amddifadus lai o flynyddoedd o fywyd heb salwch, ac maent yn fwy tebygol o gael bywydau byrrach. Mae hyn i'w weld yn y bwlch rhwng disgwyliad oes iach ledled Gwent.

Hefyd, mae plant o gartrefi amddifadus yn cael canlyniadau gwaeth yn yr ysgol; gan gyfyngu ar eu cyfleoedd a chynyddu'r risg y caiff tlodi ei drosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf.

Gwyddom hefyd fod rhai pobl yn ein cymunedau yn wynebu tlodi mewn gwaith, ac y bydd faint o incwm gwario sydd gan aelwyd yn effeithio ar ei gallu i fforddio bwyd, trafnidiaeth ac ynni a bod yn gysylltiedig yn ddigidol – yn enwedig wrth i gostau gynyddu.

Mae'r asesiad yn dweud wrthym nad yw llawer o aelwydydd incwm isel yn gallu fforddio bod yn berchen ar eu tai eu hunain, ac mae prisiau tai yn codi, sy'n rhoi pwysau ar ein stoc tai cymdeithasol. Bydd hefyd angen i Went y dyfodol gael mwy o stoc dai sy'n diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio a strwythurau teuluol sy'n newid, ac sy'n gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

Mae rhywfaint o'r data hefyd yn dweud wrthym fod ymyriadau'n trin y symptomau yn hytrach na'r achosion. Er enghraifft, mae banciau bwyd a phrydau ysgol am ddim yn ddangosyddion o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau. Rydym am i genedlaethau'r dyfodol gael gwaith da, ac ennill digon o arian i brynu'r pethau y bydd eu hangen arnynt, byw mewn cartrefi cynnes a gwneud dewisiadau iach mewn bywyd. Bydd angen i bob un ohonom gydweithio i atal problemau rhag datblygu neu waethygu.

Mae Gwent yn doreithiog o adnoddau naturiol, ond nid yw ein holl adnoddau naturiol mewn cyflwr da, a gwyddom fod bioamrywiaeth yn dirywio. Bydd gwella cyflwr a chadernid ein hadnoddau naturiol yn golygu y byddwn mewn sefyllfa well i allu mynd i'r afael â heriau megis newid hinsawdd, tlodi ac anghydraddoldeb, yn ogystal â chyfrannu at yr economi drwy ddarparu swyddi yn niwydiannau'r dyfodol, megis ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio a chefnogi iechyd da.

Mae llawer o'r dulliau anghynaliadwy sy'n rhoi pwysau ar ein hadnoddau naturiol hefyd yn peri i'r hinsawdd newid.

Mae angen i adnoddau naturiol Gwent allu gwrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid gan gynnwys digwyddiadau tywydd mwy eithafol.

Hefyd, bydd heriau sy'n gysylltiedig â phontio i ddyfodol carbon isel, a bydd angen i ni ystyried y system ynni gyfan – gwres, pŵer a thrafnidiaeth. Er y gall amcanestyniadau o aeafau mwynach sy'n gysylltiedig â hinsawdd sy'n newid helpu i leihau tlodi tanwydd,

gwyddom fod gan lawer o'n stoc dai effeithlonrwydd thermol gwael ac y bydd unrhyw waith ôl-osod yn heriol.

Cynhaliwyd yr asesiad hwn yn ystod pandemig byd-eang. Mae COVID-19 wedi effeithio ar yr economi a rhyngweithio cymdeithasol ac wedi rhoi ein system gofal iechyd dan bwysau. Mae cyfyngiadau symud a ffyrlo wedi golygu bod pobl yn rhoi addysg gartref, yn rhoi'r gorau i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, neu'n colli eu swyddi, hyd yn oed. Mae busnesau wedi bod ar gau neu'n gweithio â chapasiti cyfyngedig, ac er y llwyddodd rhai busnesau i symud ar-lein, nid oedd hyn yn bosibl i rai eraill ac felly bu'n rhaid iddynt gau.

O ganlyniad i COVID-19, mae mwy o wasanaethau wedi symud ar-lein, ac er bod hyn yn cynnig amrywiaeth o fanteision, rydym hefyd yn deall bod risg y bydd pobl yn cael eu gadael ar ôl gan y newid hwn, felly byddwn yn cadw hyn mewn cof wrth ystyried y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y dyfodol.

Nid yw effeithiau hirdymor COVID-19 yn glir eto, ac mae'n bosibl y bydd y rhain, ynghyd â heriau megis newid hinsawdd a gadael yr Undeb Ewropeaidd, yn gwaethygu anghydraddoldebau ymhellach ac yn effeithio ar ddatblygiad llesiant yn y dyfodol.

Ar gyfer rhai o'r heriau y mae Gwent yn eu hwynebu, mae gwasanaethau cyhoeddus eisoes wedi cyflwyno rhaglenni gwaith, ar y cyd ac yn unigol. Ar gam nesaf y broses o gynllunio ar gyfer llesiant, bydd angen i ni benderfynu a yw ein dulliau yn iawn o hyd, a fydd angen i ni wneud mwy o rai pethau a llai o bethau eraill, a beth yw'r ffyrdd gorau o gydweithio. Mae COVID-19 eisoes wedi peri i gyrff cyhoeddus weithio'n gyflym ac ar draws ffiniau i fynd i'r afael â

phroblemau a bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd Gwent yn defnyddio'r dulliau hyn, gan adeiladau'n gadarnhaol ar yr hyn sydd wedi digwydd o'r blaen i wella llesiant hirdymor pobl sy'n byw yng Ngwent.

2. Gwent

Arwynebedd 	Cyfanswm arwynebedd Gwent yw 158,500 hectar – tua 7.6% o gyfanswm arwynebedd Cymru.			
Poblogaeth 	Amcangyfrifir bod gan Went boblogaeth o 594,164, sef tua 19% o gyfanswm poblogaeth Cymru ¹			
Dwysedd poblogaeth	Dwysedd poblogaeth Gwent yw 3.75 person yr hectar. Dwysedd poblogaeth Cymru yw 1.52 person yr hectar.			
Anheddau 	Mae 275,882 o anheddau yng Ngwent, sef tua 18.2% o gyfanswm nifer yr aelwydydd yng Nghymru ² .			
Cyffredinol	At ddibenion asesu llesiant, rhannwyd Gwent yn 22 o ardaloedd cymunedol lleol.			
Blaenau-Gwent Ebbw Fawr North Ebbw Fach South Ebbw Fach Sirhowy	Caerphilly Upper Rhymney Valley Mid Valleys West Caerphilly Basin Mid Valleys East Lower Islwyn	Monmouthshire Usk & Raglan Monmouth Severnside Abergavenny Chepstow & Lower Wye	Newport City Centre North West South West North East East	Torfaen Cwmbran Pontypool Blaenavon

Blaenau-Gwent	Blaenau Gwent
Ebbw Fawr	Ebwy Fawr
North Ebbw Fach	Gogledd Ebwy Fach
South Ebbw Fach	De Ebwy Fach
Sirhowy	Sirhywi
Caerphilly	Caerffili
Upper Rhymney Valley	Cwm Rhymni Uchaf
Mid Valleys West	Gorllewin Canol y Cymoedd
Caerphilly Basin	Basn Caerffili
Mid Valleys East	Dwyrain Canol y Cymoedd
Lower Islwyn	Islwyn Isaf
Monmouthshire	Sir Fynwy
Usk & Raglan	Brynbuga a Rhaglan
Monmouth	Trefynwy
Severnside	Glan Hafren
Abergavenny	Y Fenni
Chepstow & Lower Wye	Cas-gwent a Rhannau Isaf Afon Gwy
Newport	Casnewydd
City Centre	Canol y Ddinas
North West	Gogledd-orllewin
South West	De-orllewin
North East	Gogledd-ddwyrain
East	Dwyrain
Torfaen	Torfaen
Cwmbran	Cwmbrân
Pontypool	Pont-y-pŵl
Blaenavon	Blaenafon

Figure 1:



Ffigur 1: Map yn dangos pum awdurdod lleol Gwent.

Atgynhychwyd o fap Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron. Byddai atgynhychu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron, a gall hynny arwain at erlyniad/achos sifil. RHIF TRWYDDED LA 100023426 2007

Poblogaeth gyffredinol	Rhagwelir y bydd poblogaeth gyffredinol Gwent yn cynyddu 6.2% rhwng 2019 a 2043, sy'n weddol debyg i gyfartaledd Cymru (5.2%). Yng Ngwent, byddai hyn yn golygu 36,987 yn rhagor o bobl ³ .
16-64 oed	Rhagwelir y bydd nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n byw yng Ngwent yn cynyddu fymryn, sef 0.7% erbyn 2043, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru (-0.5%). Yng Ngwent, byddai hyn yn golygu 2,367 yn rhagor o bobl yn yr ystod oedran hon ⁴ .
65 oed a throsodd	Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd sy'n byw yng Ngwent yn cynyddu 31.2% rhwng 2019 a 2043, sy'n weddol debyg i gyfartaledd Cymru (29%). Yng Ngwent, gallai hyn olygu 37,263 yn rhagor o bobl yn yr ystod oedran hon ⁵ .
85 oed a throsodd	Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed a throsodd sy'n byw yng Ngwent yn cynyddu 74% rhwng 2019 a 2043, sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru (69.5%). Yng Ngwent, gallai hyn olygu 10,615 yn rhagor o bobl yn yr ystod oedran hon ⁶ .

Gall deall sut y gallai'r boblogaeth newid yn y dyfodol ein helpu i feddwl am heriau a chyfleoedd allweddol o ran llesiant, er enghraifft poblogaeth sy'n heneiddio.

Disgwylir i nifer y bobl hŷn yng Ngwent gynyddu yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

Gall y ffaith bod pobl yn byw'n hwy arwain at lawer o fanteision, gan gynnwys y cyfraniad cadarnhaol y gallant ei wneud at eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Rydym am i'n pobl hŷn fod mor iach â phosibl am gymaint o amser â phosibl.

Gallai poblogaeth sy'n heneiddio olygu y bydd mwy o alw am wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn y dyfodol. Bydd angen i boblogaeth sy'n heneiddio gael tai sy'n diwallu ei hanghenion.

3. Llesiant cymdeithasol

Mae'r asesiad yn tynnu sylw at yr anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau o ran iechyd, tai ac addysgu, a'r ffaith bod y rhain yn aml yn gydgysylltiedig; gall ansawdd tai effeithio ar iechyd, a gall iechyd gwael effeithio ar berfformiad addysgol a gallu pobl i ddod o hyd i waith neu aros mewn gwaith.

Mae angen i blant a phobl ifanc gael y dechrau gorau mewn bywyd a gwyddom fod modd osgoi llawer o'r anghydraddoldeb ac amgylchiadau bywyd gwael a brofir yn ein cymunedau, neu leihau eu heffaith.

Gwyddom hefyd fod y bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymunedau yn fwy tebygol o wynebu rhai o effeithiau negyddol hinsawdd sy'n newid – er y bydd gaeafau mwynach yn helpu i leihau tldi tanwydd, gwyddom ei bod yn anos ac yn ddrutach gwresogi llawer o'n stoc dai mewn tywydd oer, neu ei hoeri mewn tywydd poeth.


Mae cynnydd mewn glawiad hefyd yn cynyddu'r perygl o lifogydd. Mae'n llai tebygol y bydd gan bobl fwy difreintiedig yswiriant, sy'n golygu y bydd yn anos iddynt atgyweirio eu cartrefi.

3.1 Amddifadedd

Mae'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (MALIC) yn nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae'r mynegai yn cyflwyno tystiolaeth ar gyfer yr ardaloedd â'r mwyaf o amddifadedd yng Nghymru ac yn rhestru pob ardal fach yng Nghymru o 1 (y mwyaf o amddifadedd) i 1,909 (y lleiaf o amddifadedd).

Ar hyn o bryd, mae MALIC yn cynnwys wyth gwahanol barth (neu fath) o amddifadedd. Mae pob parth yn seiliedig ar amrywiaeth o wahanol ddangosyddion⁷. Y parthau sydd wedi'u cynnwys yn MALIC 2019 yw:

- | | | |
|--------------|---------------------------|--------------------------|
| • Incwm | • Addysg | • Diogelwch Cymunedol |
| • Cyflogaeth | • Mynediad at Wasanaethau | • Yr Amgylchedd Ffisegol |
| • Iechyd | • Tai | |



Ffigur 2: Awdurdodau lleol Gwent yn y safle amddifadedd cyffredinol uchaf ym MALIC

Mae'r map thematig yn dangos mwy o amddifadedd cyffredinol yng nghymunedau'r cymoedd ac o gwmpas y canol trefi a dinasoedd. Ochr yn ochr â'r ardaloedd hyn o amddifadedd mae ardaloedd o lawer llai o amddifadedd, sy'n gwneud y gwahaniaethau'n fwy amlwg.

Amddifadedd cyffredinol	Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) ymhlith yr 20% mwyaf amddifadus ar y cyfan yng Nghymru fesul awdurdod lleol ⁸ .		
	Ardal	Nifer	%
	Blaenau Gwent	21	45
	Caerffili	26	24
	Sir Fynwy	1	2
	Casnewydd	33	35
	Torfaen	19	32

Mae 27% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Ngwent ymhlith yr 20% mwyaf amddifadus yn gyffredinol yng Nghymru. Blaenau Gwent sydd â'r gyfran uchaf yng Ngwent (45%) a Sir Fynwy sydd â'r gyfran isaf (2%). Sant Iago 3 yng Nghaerffili yw'r LSOA fwyaf amddifadus yng Ngwent a'r drydedd fwyaf amddifadus yng Nghymru.

3.2 Tai

Mae cartref yn rhan hanfodol o fywydau pobl – mae'n effeithio ar eu hiechyd, eu hansawdd bywyd a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae cartrefi o ansawdd da yn hanfodol ar gyfer llesiant, ynghyd â gallu fforddio i wresogi'r cartref, yn enwedig yn ystod misoedd oer y gaeaf.

Mae tai hefyd yn rhan allweddol o'n cymunedau. Maent yn sbarduno'r galw am wasanaethau, siopau a chyfleusterau yn lleol, a gallant hefyd ddenu buddsoddiad. Heb gartref sefydlog, gall pobl ei chael hi'n anodd cael gwaith, addysg, hyfforddiant a gwasanaethau ieuchyd.

Mae pob math o ddatblygiad, gan gynnwys datblygiadau tai, yn cael effaith ar yr amgylchedd ac mae angen iddynt fynd rhagddynt mewn ffordd sy'n sensitif i ardaloedd lleol, yn cyfyngu ar y defnydd o ynni ac yn croesawu ffordd gynaliadwy o gynllunio a dylunio.

Mae parth tai MALIC yn seiliedig ar ddangosyddion sy'n cynnwys pobl mewn aelwydydd gorlawn, y tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael, y tebygolrwydd o dai sy'n cynnwys peryglon difrifol a'r tebygolrwydd y bydd tai mewn cyflwr gwael⁹.

Mae'r map thematig yn dangos bod y rhan fwyaf o amddifadedd tai wedi'i glystyru o amgylch canol dinas Casnewydd sydd â 12 i LSOAs ymhlith y 10% mwyaf amddifadus yng Nghymru, a Fictoria 3 yw'r uchaf (y 10fed fwyaf amddifadus yng Nghymru). Mewn mannau eraill mae'r patrwm o amddifadedd tai ledled Gwent yn edrych yn weddol wasgaredig, ond mae'n tynnu sylw yn y rhan fwyaf o Sir Fynwy lle mae categorïau eraill o amddifadedd yn isel ar y cyfan.

Gallai hyn fod am fod pobl yn gyfoethog o ran asedau ond yn dlawd o ran incwm. Gall hyn hefyd fod am nad oes digon o dai addas i symud iddynt.




Figure 3: Gwent local authorities in highest housing WIMD deprivation ranking

Amddifadedd tai	Nifer yr LSOAs ymhlith yr 20% mwyaf amddifadus o ran tai yng Nghymru fesul awdurdod lleol ¹⁰ .		
	Ardal	Nifer	%
	Blaenau Gwent	13	28
	Caerffili	14	13
	Sir Fynwy	6	11
	Casnewydd	24	25
	Torfaen	8	13

Blaenau Gwent sydd â'r gyfran uchaf o LSOAs mwyaf amddifadus (28%) yng Ngwent (28%) a Sir Fynwy sydd â'r gyfran isaf (11%). Fictoria 3 yng Nghasnewydd yw'r LSOA fwyaf amddifadus yng Ngwent a'r 10fed fwyaf amddifadus yng Nghymru.

I lawer i aelwydydd incwm isel, mae prynu tŷ yn anfforddiadwy. Byddai'n rhaid i unigolion sydd am brynu tŷ wario 7.6 gwaith yn fwy na'u cyflog yn Sir Fynwy a 3.8 gwaith yn fwy na'u cyflog ym Mlaenau Gwent.

Cost eiddo ar gyfartaledd	Cost eiddo yng Ngwent ar gyfartaledd yn ystod 2020 ¹¹ .	
	Ardal	Pris gwerthu ar gyfartaledd
	Blaenau Gwent	£109,498
	Caerffili	£159,854
	Sir Fynwy	£312,219
	Casnewydd	£211,593
	Torfaen	£180,052

Cyflog
blynyddol
gros

ar

£

gyfartaledd

Cyflog blynyddol yng Ngwent ar gyfartaledd yn ystod 2020¹².

Ardal	Cyflog blynyddol gros ar gyfartaledd	Cymhareb prisiau tai ac incwm
Blaenau Gwent	£28,531	3.8
Caerffili	£31,550	5.1
Sir Fynwy	£41,285	7.6
Casnewydd	£32,187	6.6
Torfaen	£33,405	5.4

O ystyried prisiau tai, mae'n fwyfwy pwysig bod digon o dai cymdeithasol, yn enwedig i aelwydydd incwm isel.

Mae data diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos y niferoedd canlynol o dai fforddiadwy a adeiladwyd yn ystod 2019-20, a'r niferoedd arfaethedig ar gyfer 2020-21.¹³

Tai ychwanegol	fforddiadwy	Adeiladwyd yn 2019-20	Arfaethedig ar gyfer 2020-21
Caerffili		126	86
Blaenau Gwent		12	138
Torfaen		141	74
Sir Fynwy		113	165
Casnewydd		239	232

Ffigur 5: Tabl yn dangos tai fforddiadwy ychwanegol fesul ardal¹⁴

Gall aelwydydd incwm isel wario cyfran anghymesur o'u hincwm ar wresogi eu cartrefi. Hefyd, gall pobl sy'n byw mewn cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael a/neu eu gwresogi'n wael wynebu costau ynni uchel. Gwyddom fod lefelau uchel o dlodi tanwydd mewn llawer o ardaloedd ledled Gwent, ac mae'r cynnydd mewn costau ynni, yn enwedig y cynyddiadau sylweddol a welwyd yn 2021, wedi gwaethgu'r broblem.

	Pob Aelwyd	Nifer yr Aelwydydd mewn tlodi tanwydd	% yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd
Caerffili	77,000	7,000	9%
Blaenau Gwent	31,000	3,000	11%
Torfaen	40,000	3,000	8%
Sir Fynwy	39,000	4,000	10%
Casnewydd	63,000	6,000	9%

Ffigur 5: Cartrefi mewn Tlodi Tanwydd fesul awdurdod lleol, 2018¹⁵

Mae asesiad o risgiau newid hinsawdd y DU yn nodi risgiau i iechyd a llesiant yn sgil tymereddau uchel. Mae hefyd yn nodi bod lefel y risg i gartrefi yng Nghymru yn y presennol a'r dyfodol yn anhysbys ¹⁶.

Disgwylir i newid hinsawdd gynyddu amllder, difrifoldeb a maint llifogydd hefyd¹⁷. Gall llifogydd gael effaith sylweddol ar gartrefi, busnesau, seilwaith allweddol a chymunedau cyfan. Mae **59%** o eiddo (cartrefi a busnesau) mewn ardaloedd â rhybudd rhag llifogydd yng Ngwent wedi cofrestru ar gyfer gwasanaeth rhybuddio

am lifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru¹⁸. Mae'r gwasanaeth hwn yn anfon negeseuon rhybudd dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy negeseuon testun i eiddo sydd mewn perygl llifogydd.

Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd un person yn cynyddu fwy na 30% dros yr 20 mlynedd nesaf, gan effeithio ar yr angen am dai. Er gwaethaf hyn, mae'n debygol y bydd llai o dir addas ar gael ar gyfer datblygu wrth i lifogydd fynd yn fwyfwy tebygol ar orlifdir a thir isel arall.¹⁹

Bydd angen i Went y Dyfodol gael tai sy'n gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Bydd hefyd angen mwy o stoc dai sy'n addas ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio a newidiadau i strwythurau aelwydydd.

Er bod gan lawer o'n stoc dai effeithlonrwydd thermol gwael ac y bydd unrhyw waith ôl-osod ar y tai hynny yn heriol, daw cyfleoedd economaidd yn sgil datgarboneiddio tai'r rhanbarth hefyd.

Nododd astudiaeth a gynhaliwyd ar gyfer Gwent yn ddiweddar y gallai ynni gwynt gynhyrchu digon o drydan i bweru mwy na 300,000 o gartrefi ac y gallai paneli solar wedi'u gosod ar y ddaear gynhyrchu digon o drydan i bweru'r hyn sy'n gyfwerth â mwy na 4 miliwn o gartrefi²⁰.

3.3. Iechyd

Gall effaith gwael effeithio ar y bobl yn ein cymunedau – eu cyrhaeddiad addysgol, eu bywyd teuluol, a'u gallu i gael gwaith da ac aros mewn gwaith. Gwyddom hefyd y gall tai, addysg, cyflogaeth, incwm, diogelwch cymunedol a ffactorau amgylcheddol i gyd effeithio ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl.

Mae parth iechyd MALIC yn seiliedig ar ddangosyddion sy'n cynnwys cyflyrau cronig a gofnodir gan feddygon teulu, salwch hirdymor cyfyngol, marw cyn pryd, iechyd meddwl a gofnodir gan feddygon teulu, achosion o ganser a babanod â phwysau geni isel²¹.




Figure 4: Gwent local authorities in highest health WIMD deprivation ranking

Mae'r map thematig yn dangos bod **anghydraddoldebau iechyd sylweddol** yn bodoli yng Ngwent a bod rhannau o gymunedau ledled Gwent lle mae'r amddifadedd iechyd ymhlith y 10% uchaf. Mae'r rhain wedi'u clystyru'n bennaf yng Nghasnewydd, Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent.

Amddifadedd iechyd

Nifer yr LSOAs ymhlith yr 20% mwyaf amddifadus o ran iechyd yng Nghymru fesul awdurdod lleol²².

Ardal	Nifer	%
Blaenau Gwent	17	36
Caerffili	27	25
Sir Fynwy	2	4
Casnewydd	25	26
Torfaen	18	30

Blaenau Gwent sydd â'r gyfran uchaf o LSOAs mwyaf amddifadus o ran iechyd (36%) yng Ngwent a Sir Fynwy sydd â'r gyfran isaf (4%). Sant Iago 3 yng Nghaerffili yw'r LSOA fwyaf amddifadus yng Ngwent a'r seithfed fwyaf amddifadus yng Nghymru²³.

Blaenau Gwent sydd â'r gyfran uchaf o drigolion sydd â salwch hirdymor cyfyngol (27.7 fesul 100 o'r boblogaeth) o gymharu â Chymru (22.7). Fodd bynnag, gall ystadegau ar lefel awdurdod lleol guddio ardaloedd lleol sy'n peri mwy o bryder, er enghraifft yr LSOA uchaf yng Ngwent, sef Sant Iago 3 yng Nghaerffili sydd â chyfradd o 40.7, sef bron dwbl cyfradd Cymru.

Hefyd, Blaenau Gwent yw'r awdurdod lleol sydd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau cyn pryd (cyn 75 oed) ledled Gwent, sef 467.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth, o gymharu â Chymru (382.4). Unwaith eto, wrth edrych ar ardaloedd daearyddol llai, yr LSOA uchaf yw Pilgwenlli 4 yng Nghasnewydd sydd â chyfradd o 1006.0, sy'n fwy na dwbl cyfradd Cymru.


Mae data ar ddisgwyliad oes iach yn dangos lefel o anghydraddoldeb iechyd ym mhob un o'n cymunedau. Ar lefel Gwent gyfan, mae hyn yn amrywio o'r isaf ym Mlaenau Gwent, sef 55.9 mlynedd i ddynion a 57 mlynedd i fenywod, i'r uchaf yn Sir Fynwy, sef 66.4 mlynedd i ddynion a 66.1 mlynedd i fenywod. Mae hwn yn fwlch o 10.5 mlynedd i ddynion a 9.1 mlynedd i fenywod - sydd, unwaith eto, yn dangos yr anghydraddoldeb sy'n bodoli ledled Gwent.

Nid ydym yn gwybod eto beth fydd effaith hirdymor y pandemig ar iechyd. Roedd [Build Back Fairer: the COVID-19 Marmot Review](#), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, yn edrych ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd yn Lloegr, ac mae'n pwysleisio bod yr anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn cymunedau wedi cyfrannu at y nifer uchel ac anghyfartal o farwolaethau yn sgil COVID-19 yn Lloegr. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod y pandemig wedi gwaethygu rhai anghydraddoldebau iechyd ac y bydd angen cynyddu buddsoddiad yn iechyd y cyhoedd er mwyn lliniaru effaith y pandemig ar iechyd ac ar anghydraddoldebau iechyd a'u penderfynyddion ehangach. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod llawer y gellir ei wneud i wella ansawdd bywydau pobl ac y gall y polisïau hirdymor cywir leihau anghydraddoldebau iechyd²⁴.

3.4 Diogelwch cymunedol

Mae diogelwch cymunedol, sef i ba raddau y mae trosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnom ni a'n cymunedau, yn fater pwysig i bob un ohonom. Mae hyn yn golygu mwy na datrys troseddau yn unig; mae hefyd yn golygu ystyried yr hyn y gellir ei wneud i atal y gweithgareddau hyn rhag digwydd o gwbl.

Mae parth diogelwch cymunedol MALIC yn seiliedig ar ddangosyddion sy'n cynnwys difrod troseddol, troseddau treisgar, ymddygiad gwrthgymdeithasol, bwrgheriaeth, dwyn ac achosion o dân²⁵.



Ffigur 5: Awdurdodau lleol Gwent yn y safle amddifadedd diogelwch cymunedol uchaf ym MALIC

Amddifadedd diogelwch cymunedol

Nifer yr LSOAs ymhlith yr 20% mwyaf amddifadus o ran diogelwch cymunedol yng Nghymru fesul awdurdod lleol²⁶.

Ardal	Nifer	%
Blaenau Gwent	25	53
Caerffili	33	30
Sir Fynwy	3	5
Casnewydd	45	47
Torfaen	23	38

Blaenau Gwent sydd â'r gyfran uchaf o LSOAs ymhlith yr 20% mwyaf amddifadus o ran diogelwch cymunedol (53%) a Sir Fynwy sydd â'r gyfran isaf (5%). LSOA Stow Hill 3 yng Nghasnewydd yw'r ail fwyaf amddifadus yng Nghymru gyfan o ran diogelwch cymunedol, a'r ffactorau amlycaf yw difrod troseddol (7.64 fesul 100 o bobl), ymddygiad gwrthgymdeithasol (16.68 fesul 100 o bobl) a dwyn (3.7 fesul 100 o bobl).

Rhwng 2016 a 2019, cynyddodd lefelau troseddu cyffredinol yng Ngwent, ac ym mhob un o'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth, cyn gostwng yn y ddwy flynedd ddilynol (2019-20 a 2020-21)²⁷ a all fod yn rhannol o ganlyniad i'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith yn sgil pandemig y Coronafeirws.





Figure 5:

Overall crime in Gwent 2016-17 to 2020-21.	Cyfanswm troseddau yng Ngwent 2016-17 i 2020-21.
Source: Gwent Police	Ffynhonnell: Heddlu Gwent
Caerphilly	Caerffili
Monmouthshire	Sir Fynwy
Newport	Casnewydd

3.5 Addysg

Gall addysg dda wneud cyfraniad allweddol at alluogi pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt a chyflawni eu potensial.

Mae parth addysg MALIC yn seiliedig ar ddangosyddion sy'n cynnwys y sgôr pwyntiau gyfartalog ar gyfer y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4, absenoliaeth, disgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n symud ymlaen i addysg uwch ac oedolion rhwng 25 a 64 nad oes ganddynt gymwysterau²⁸.



Ffigur 6: Awdurdodau lleol Gwent yn safle uchaf MALIC am amddifadedd addysg

Mae'r map thematig yn dangos bod lefelau cyrhaeddiad a chymwysterau yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd yng Ngwent. Yn yr un modd, mae lefelau cyrhaeddiad yn amrywio rhwng grwpiau mwy a llai difreintiedig o blant.

Amddifadedd addysg	Nifer yr LSOAs ymhlith yr 20% mwyaf amddifadus o ran addysg yng Nghymru fesul awdurdod lleol ²⁹ .		
	Blaenau Gwent	18	38
	Caerffili	31	28
	Sir Fynwy	1	2
	Casnewydd	28	29
	Torfaen	17	28

Blaenau Gwent sydd â'r gyfran uchaf o LSOAs ymhlith yr 20% mwyaf amddifadus o ran addysg (38%) a Sir Fynwy sydd â'r gyfran isaf (2%). LSOA Ringland 4 yng Nghasnewydd yw'r chweched fwyaf amddifadus yng Nghymru, a sgôr pwyntiau gyfartalog o 80 ar gyfer pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4 yw'r prif ffactor. LSOA Tŷ-du 1 yng Nghasnewydd yw'r lleiaf amddifadus, gyda sgôr o 145³⁰.

Mae teuluoedd sy'n byw yng Ngwent yn ei chael hi'n anodd talu am hanfodion bywyd. Gall y gallu i gael pryd da wella iechyd disgyblion a'u helpu i ddysgu.

Prydau ysgol am ddim	Mae 24.8% o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yng Ngwent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ³¹ .
----------------------	---

Mae data ar brydau ysgol am ddim yn dweud wrthym fod nifer cynyddol o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mhob rhan o Went.

Mae'n bosibl mai yn yr ysgol y caiff pobl ifanc y cyfle cyntaf i ddysgu'r sgiliau y bydd eu hangen i gyd-dynnu'n dda â phobl o gefndiroedd gwahanol a bod yn ddinasyddion gweithgar.

Ethnigrwydd	Daw 11.8% o ddisgyblion 5 oed a throsodd yng Ngwent o gefndir ethnig lleiafrifol ³² .
--------------------	---

Mae'r Coronafeirws wedi amharu ar addysg. Mae wedi effeithio ar lefelau presenoldeb ysgolion ac wedi arwain at gyfnodau o ddysgu o bell i ddisgyblion. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd yr effaith hirdymor ar ddysgu.

Mae angen i ni sicrhau y caiff pobl ifanc eu paratoi'n dda ar gyfer sectorau cyflogaeth y dyfodol. Hefyd, ceir rhai pethau pob dydd y bydd eu hangen am byth ac felly bydd angen pobl fedrus sy'n gallu gweithio yn y sectorau hynny.


3.6 Trafnidiaeth

Mae cysylltiadau trafndiaeth da yn hollbwysig i'r economi leol, gan sicrhau y bydd y nwyddau, gwasanaethau a deunyddiau crai y mae pob un ohonom yn dibynnu arnynt ar gael ble a phan fydd eu hangen arnom. Mae gallu symud o gwmpas yn hawdd yn rhan bwysig o fywydau beunyddiol pobl, er enghraifft er mwyn i blant fynd i'r ysgol, er mwyn i bobl fynd i'r gwaith ac er mwyn cysylltu i deulu a ffrindiau gadw mewn cysylltiad â'i gilydd. Hefyd, mae'n galluogi pobl i fynd i gefn gwlad ar gyfer gweithgareddau hamdden, ymweld ag atyniadau hanesyddol a diwylliannol, a defnyddio cyfleusterau chwaraeon a hamdden, gan helpu pobl i gadw'n iach ac yn egnïol. Mae'r gallu hwn i deithio yn bwysig iawn er mwyn atal pobl rhag teimlo'n unig ac yn ynysig.

Gwyddom y gall teithio llesol fel cerdded, beicio a sgwtera wella iechyd pobl a helpu poblogaeth sy'n heneiddio i aros yn iachach am fwy o amser, yn ogystal â lleihau llygredd. Fodd bynnag, gall natur wledig rhannau o Went wneud hyn yn anodd. Gall technoleg newydd fel beiciau trydan wneud teithio llesol yn ddewis ymarferol i fwy o bobl yn y dyfodol.

Mae'r gallu i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn amrywio'n fawr ledled Gwent. Mae gan Gaerffili ddigonedd o orsafoedd trenau sy'n cysylltu'r dref â Chaerdydd ac mae gan Gasnewydd brif orsaf, ond ceir llai o gysylltiadau yn Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Thorfaen, a adlewyrchir gan nifer y siwrneiau rheilffordd a wneir³³. Hefyd, mae costau trafndiaeth yn cynyddu'n gyflymach na chwyddiant, gan

olygu bod teithio'n mynd yn ddrutach. Fodd bynnag, nid yw'r dewis arall, sef bod yn berchen ar gar, yn fforddiadwy i lawer o bobl.



Mae cysylltiadau trafndiaeth da yn hollbwysig i'r economi leol, gan sicrhau y bydd y nwyddau, gwasanaethau a deunyddiau crai y mae pob un ohonom yn dibynnu arnynt ar gael ble a phan fydd eu hangen arnom. Mae gallu symud o gwmpas yn hawdd yn rhan bwysig o fywydau beunyddiol pobl, er enghraifft er mwyn i blant fynd i'r ysgol, er mwyn i bobl fynd i'r gwaith ac er mwyn cysylltu i deulu a ffrindiau gadw mewn cysylltiad â'i gilydd. Hefyd, mae'n galluogi pobl i fynd i gefn gwlad ar gyfer gweithgareddau hamdden, ymweld ag atyniadau hanesyddol a diwylliannol, a defnyddio cyfleusterau chwaraeon a hamdden, gan helpu pobl i gadw'n iach ac yn egnïol.

Gwyddom y gall teithio llesol helpu poblogaeth sy'n heneiddio i aros yn iachach am fwy o amser a bod fforddiadwyedd trafndiaeth, a'r gallu i'w defnyddio, yn broblem i rannau o'n cymunedau.

Y gobaith yw y bydd y cynlluniau ar gyfer Metro De Cymru a'r gwaith a wneir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yn golygu y bydd trafndiaeth yn gyflymach, yn fwy rheolaidd ac yn gydgyssylltiedig, ac yn cynnig dewis gwell na'r car.

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd Gwent, mae lefelau traffig wedi cynyddu, yn enwedig yn Sir Fynwy a Chasnewydd, ac mae hyn wedi cael effaith ar ansawdd aer ledled Gwent, gyda sawl Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn deillio o lygredd traffig ar ffyrdd prysur a thraffyrdd. Mae llawer o'n dulliau teithio presennol yn cael effaith negyddol ar ein hamgylchedd ac ar iechyd pobl, gan newid ein hinsawdd a chynyddu llygredd, a bydd angen i ni ystyried ffyrdd gwahanol o ddiwallu ein hanghenion teithio, megis teithio llesol a cherbydau trydan a hydrogen.

Wrth ystyried pa mor hawdd yw teithio i leoedd, mae data MALIC yn dangos bod 39% o LSOAs Sir Fynwy ymhlith yr 20% uchaf o ran mynediad at wasanaethau yng Nghymru, o gymharu â dim ond 5% ar gyfer Torfaen a Chaerffili. Mae hyn yn golygu ei bod yn cymryd llawer mwy o amser i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn Sir Fynwy deithio i ddefnyddio gwasanaethau megis meddygon, siopau neu ganolfannau hamdden ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Gan fod Gwent yn agos at ganolfannau trefol fel Caerdydd, Abertawe a Bryste, yn ogystal â Henffordd, Caerloyw a Chanolbarth Lloegr, mae llawer iawn o bobl yn cymudo allan o'r sir lle maent yn byw. Mae

mwy o bobl yn cymudo i Gasnewydd, ond mae mwy o bobl yn cymudo o Flaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen.

Amddifadedd mynediad at wasanaethau	Nifer yr LSOAs ymhlith yr 20% mwyaf amddifadus o ran mynediad at wasanaethau yng Nghymru fesul awdurdod lleol ³⁴ .		
	Ardal	Nifer	%
	Blaenau Gwent	8	17
	Caerffili	5	5
	Sir Fynwy	22	39
	Casnewydd	8	8
	Torfaen	3	5

Roedd cyfyngiadau symud COVID-19 yn golygu bod llawer o bobl yn gweithio gartref, ac mae lefelau cymudo wedi lleihau. Mae hyn wedi bod o fudd i'r amgylchedd, felly, yn y dyfodol, efallai y bydd sefydliadau'n ystyried arbed arian ar swyddfeydd drwy ganiatáu mwy o weithio gartref. Er mwyn i hyn fod yn effeithiol, bydd yn bwysig sicrhau bod seilwaith digidol digonol ledled y ranbarth. Bydd hefyd yn bwysig i awdurdodau lleol ddefnyddio'r system gynllunio i wneud yn siŵr bod gwasanaethau a safleoedd cyflogaeth yn cael eu lleoli'n lleol, er mwyn lleihau'r angen am siwrneiau hir.

Hefyd, rydym wedi gweld y ffordd y mae digwyddiadau tywydd eithafol wedi amharu ar ein systemau trafndiaeth ac felly bydd angen i ddulliau yn y dyfodol allu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

3 Llesiant economaidd

Mae gwaith da, rheolaidd sy'n talu'n dda yn rhoi digon o arian i bobl wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Fodd bynnag, mae llawer o bobl ar gyflog isel ac nid ydynt bob amser yn gweithio digon o oriau i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol, gan arwain at dlodi mewn gwaith.

Er bod cyfraddau cyffredinol diweithdra ac aelwydydd di-waith wedi gostwng ers 2011, ceir lefelau amddifadedd incwm a chyflogaeth uchel o hyd ac mae hyn, ynghyd â chynnydd mewn costau byw, yn effeithio ar lesiant rhai pobl yn ein cymunedau.


Mae parth incwm MALIC yn seiliedig ar bobl sy'n byw mewn amddifadedd incwm.

Blaenau Gwent sydd â'r gyfran uchaf o LSOAs ymhlith yr 20% uchaf o ran amddifadedd incwm (36%) a Sir Fynwy sydd â'r gyfran isaf (4%). LSOA Sant Iago 3 yng Nghaerffili yw'r wythfed fwyaf amddifadus yng Nghymru, gyda 47% o bobl yn cael budd-daliadau seiliedig ar incwm a chredydau treth.

Amddifadedd incwm


Nifer yr LSOAs ymhlith yr 20% mwyaf amddifadus o ran incwm yng Nghymru fesul awdurdod lleol³⁵.

Blaenau Gwent	17	36
Caerffili	27	25
Sir Fynwy	2	4
Casnewydd	31	33
Torfaen	14	23



Ffigur 7: Awdurdodau Lleol Gwent yn safle uchaf MALIC am amddifadedd incwm

Mae parth cyflogaeth MALIC yn seiliedig ar bobl o oedran gweithio sydd ag amddifadedd incwm.



Ffigur 8: Awdurdodau lleol Gwent yn safle uchaf MALIC am amddifadedd cyflogaeth

Blaenau Gwent sydd â'r gyfran uchaf o LSOAs ymhlith yr 20% uchaf o ran amddifadedd cyflogaeth (49%) a Sir Fynwy sydd â'r gyfran isaf (2%). LSOA Sant Iago 3 yng Nghaerffili yw'r bedwaredd fwyaf amddifadus yng Nghymru, gyda 34% o bobl o oedran gweithio yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

Amddifadedd cyflogaeth

Nifer yr LSOAs ymhlith yr 20% mwyaf amddifadus o ran cyflogaeth yng Nghymru fesul awdurdod lleol³⁶.

Blaenau Gwent	23	49
Caerffili	32	29
Sir Fynwy	1	2
Casnewydd	24	25
Torfaen	13	22

Gall cost ac argaeledd **gofal plant** fod yn rhwystri i rieni rhag gweithio.

Mae asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant yn dweud y canlynol wrthym:

- Mae **cost** gofal plant yn **rhwystri** i lawer o deuluoedd ledled Gwent
- Mae angen amseroedd agor/trefniadau gofal cofleidol **mwy hyblyg** er mwyn helpu rhieni ar batrymau sifftiau afreolaidd.
- Mae'r ddau ffactor hyn yn cyfrannu at **gynyddu** anweithgarwch economaidd.

Mae gan bob ardal awdurdod lleol ei chryfderau economaidd ei hun sy'n cyfrannu at economi amrywiol Gwent.

Nid ydym yn gwybod eto beth fydd effaith hirdymor y pandemig ar yr economi. Gwyddom fod llawer o bobl wedi cael eu rhoi ar ffyrlo o

ganlyniad i COVID-19, a bod gweithgarwch twristiaeth a manwerthu wedi lleihau.

Diwydiant cyflogaeth	Y diwydiannau cyflogaeth mwyaf yng Ngwent yw gweithgynhyrchu (15%), iechyd (14.8%) a manwerthu (10.1%), addysg (7.4%), gwasanaethau llety a bwyd (7.2%), amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd (6.8%), a gwasanaethau gweinyddu a chymorth busnes (6.6%) ³⁷ .
-----------------------------	---

Mae Rhanbarth Dinas Caerdydd wedi nodi sectorau â blaenoriaeth a fydd yn bwysig ar gyfer economi'r rhanbarth dros y 10-20 mlynedd nesaf, a bydd y rhain yn bwysig i ffyniant Gwent yn y dyfodol.

Mae Gwent mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y sectorau sy'n datblygu a fydd yn chwarae rhan bwysig yn ffyniant economaidd y dyfodol.

Mae angen i ni wneud yn siŵr bod pobl sy'n byw yng Ngwent yn meddu ar y sgiliau cywir i gefnogi diwydiannau'r dyfodol.

Hefyd, bydd angen i Went y Dyfodol allu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys digwyddiadau tywydd eithafol, a digwyddiadau annisgwyl mewn marchnadoedd byd-eang. Bydd datblygu cadwyni cyflenwi lleol a chynhyrchu ynni yn lleol yn helpu hyn, a gallai hyn ddarparu cyflogaeth dda yn lleol, gan gynnwys i bobl sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith addas ar hyn o bryd o bosibl.

Mae asesiad o risgiau newid hinsawdd y DU yn nodi risg i safleoedd busnes o ganlyniad i lifogydd a risgiau sy'n gysylltiedig â cholli lleoliadau a seilwaith arfordirol ³⁸. Mae prinder dŵr, a lleihad yng nghynhyrchiant cyflogeion o ganlyniad i dymereddau uchel a difrod i seilwaith hefyd wedi cael eu nodi fel risgiau³⁹. Gallai prinder dŵr fod yn broblem i'r busnesau hynny sy'n dibynnu ar yr adnodd hwn ar gyfer prosesau cynhyrchu – megis y sector bwyd.

Byddai cynhyrchu mwy o ynni yn lleol a phrosesau mwy effeithlon yn amddiffyn rhag cynyddiadau i gostau ynni cyfanwerthol.

5. Llesiant amgylcheddol

Yn ogystal â sawl safle o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol, mae Gwent yn cynnwys nifer o ardaloedd â thirwedd nodedig, ac mae pob un ohonynt yn cyfrannu at yr amgylchedd naturiol eiconig.

Adnoddau naturiol yw ein systemau cynnal bywyd, felly mae'n hollbwysig eu bod mewn cyflwr da.

Ochr yn ochr â darparu ar gyfer ein hanghenion hanfodol, gan gynnwys bwyd, dŵr glân, tanwydd, agregau a choed, mae adnoddau naturiol yn cyfrannu at lesiant mewn ffyrdd llai amlwg, gan gynnwys helpu i reoleiddio carbon drwy ei gadw dan glo, amddiffyn rhag llifogydd drwy reoli dŵr yn y dirwedd a'n helpu i addasu i newid yn yr hinsawdd.

Hefyd, mae COVID-19 wedi atgoffa llawer ohonom am fanteision iechyd gallu defnyddio mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd da yn agos at adref. Mae llawer o swyddi a chyfleoedd hyfforddi yn cael eu cysylltu â'r amgylchedd hefyd. Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd sy'n ffurfio 6.8% o sylfaen gyflogaeth Gwent.

Mae'r asesiad yn dweud wrthym fod iechyd y byd naturiol yng Ngwent dan fygythiad. Mae cyflenwadau o adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd anghynaliadwy, ac mae cadernid yn dirywio yn unol â thueddiadau byd-eang.

Colli bioamrywiaeth	Yn 2020, cynhaliwyd asesiad i edrych ar gyflwr rhywogaethau a chynefinoedd ar safleoedd allweddol yng Ngwent ac, yn achos tua 45% o'r nodweddion ar y safleoedd hyn (o gymharu â ffigur cenedlaethol o 49%), amcangyfrifwyd bod 29% yn 'ffafriol' a bod tua 71% yn 'anffafriol'. Mae'r wybodaeth hon yn awgrymu bod ein cynefinoedd a'n rhywogaethau dan bwysau cynyddol ledled y rhanbarth ⁴⁰ .
----------------------------	---

Mae'r Asesiad yn cynnwys dadansoddiad manylach o statws cynefinoedd helaeth Gwent. Mae asesiadau o gyflwr yn dangos bod **coetiroedd brodorol** yng Ngwent yn 'anffafriol', bod cysylltedd a chyflwr **glaswelltir** yn wael a bod cyflwr ein **tir mynyddig, gweundir a rhostir** yn llai na ffafriol. Mae statws y mwyafrif o'n **hafonydd** yn wael neu'n gymedrol ac mae iechyd ein hafonydd gorau tua dwyrain y sir yn dangos cyfraddau methiant sylweddol o ran lefelau ffosfforws, gyda stociau eog yn dirywio. Yn yr un modd, mae statws arbennig **Aber Afon Hafren** hefyd dan fygythiad, a rhagwelir y bydd effeithiau eithafol newid yn yr hinsawdd yn debygol i'n cynefinoedd arfordirol.

Colli rhywogaethau	Mae Adroddiad Cyflwr Natur Gwent , a gyhoeddwyd yn ddiweddar, wedi dadansoddi hyd at 120,000 o gofnodion rhywogaethau er mwyn cael gwybodaeth fanylach am dynged ein rhywogaethau yng Ngwent. Mae dangosyddion adar ffermdir yn dangos gostyngiad o 45% ar gyfer iseldir a 30% ar gyfer ucheldir, sy'n cydfynd i raddau helaeth â phatrymau dirywio Cymru a'r DU.
---------------------------	---

Mae gofynion croes ar dir yn arwain at golli a darnio cynefinoedd. Bydd angen tir ar gyfer tai bob amser, ac at ddibenion cyflogaeth, ond mae angen i ni wneud penderfyniadau gwell sy'n sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn rhydd rhag risgiau amgylcheddol ac yn gallu manteisio ar adnoddau naturiol a reolir mewn modd cynaliadwy.

Mae newid yn yr hinsawdd, diffyg rheolaeth, gorddefnydd, rhywogaethau goresgynnol, llygredd, troseddau tirwedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd yn bygwth adnoddau naturiol Gwent.

Newid yn yr Hinsawdd	Mae adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (2018) yn dangos y bydd cynhesu byd-eang o fwy nag 1.5°C uwchlaw lefelau cynddiwydiannol yn tanseilio systemau cynnal bywyd i fodau dynol. Rhagwelir y bydd un rhywogaeth o bob 20 dan fygythiad o ddiflannu os bydd y byd yn cynhesu 2°C.
-----------------------------	--

Mae Gwent, fel llawer o rannau eraill o Gymru, yn debygol o weld cynnydd mewn glawiad, llif afonydd a dwysedd digwyddiadau tywydd eithafol. Rhagwelir y bydd hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd llifogydd yn effeithio ar seilwaith, busnesau a chartrefi. Ni fydd modd atal pob achos o lifogydd; felly, bydd angen defnyddio amrywiaeth o ddulliau, nid yn unig i leihau'r risg lle bo modd, ond hefyd i addasu ein cymunedau a'n seilwaith er mwyn iddynt fod yn barod am ddigwyddiadau tywydd eithafol a chynnydd yn lefelau'r môr.

Perygl Llifogydd	Yng Ngwent, mae 14,014 o eiddo preswyl yn wynebu perygl llifogydd llanw. Mae 12,539 o eiddo preswyl yn wynebu perygl llifogydd afonol. Mae 22,382 o eiddo preswyl yn wynebu perygl llifogydd dŵr wyneb. ⁴¹
-------------------------	---

Disgwylir i dymereddau blynyddol yng Nghymru gynyddu ac mae'n debygol y bydd cyfnodau o dywydd poeth eithafol sy'n effeithiol ar iechyd a llesiant pobl yn dod yn fwy cyffredin o ganlyniad i hynny. Hefyd, gallai tirweddau eiconig ac asedau treftadaeth ddiwylliannol fod yn fwy agored i danau gwyllt yn y dyfodol.

Ceir her fawr i leihau effaith negyddol amaethyddiaeth ar yr amgylchedd, gan gynnal cyfraddau cynhyrchu bwyd ar gyfer poblogaeth sy'n tyfu ar yr un pryd. Gallai gadael yr Undeb Ewropeaidd gael effaith sylweddol yn y dyfodol ar drefniadau rheoli tir yng Ngwent ac, er bod cytundebau masnach a phrosesau llunio polisïau yn cael eu hystyried yn genedlaethol, gellir gwneud mwy i leihau effaith newidiadau yn y dyfodol ar lefel leol, megis cynyddu

rhwydweithiau a chadwyni cyflenwi bwyd lleol. Mae amcanestyniadau o'r hinsawdd yn y dyfodol yn awgrymu y bydd y risg o sychder yn cael effaith sylweddol ar ansawdd tir amaethyddol ac ar ein gallu i gynhyrchu bwyd yn y dyfodol.

Bwyd

Tir ffermio yw 65% o arwynebedd Gwent⁴². Amcangyfrifwyd bod 2,084 o ffermydd gweithredol yn 2018, a oedd yn cwmpasu 105,199ha⁴³, gan roi maint fferm cyfartalog o 50ha. Glaswelltir yw 78% o'r tir hwn, a dim ond 13% sy'n dir â'r a garddwriaeth. Hefyd, mae 6,654ha o goetir o fewn ffermydd.

Mae ôl troed ecolegol yn cyfeirio at faint o dir a môr cynhyrchiol y bydd eu hangen i gefnogi'r holl adnoddau a ddefnyddir gennym yn ein bywydau beunyddiol. Pe bai gweddill y byd yn byw fel rydym ni'n byw yng Nghymru, byddai angen 3.3 planed i'n cefnogi i gyd⁴⁴. Mae'r niferoedd yn debyg ar gyfer Gwent.

Ôl troed ecolegol



Ôl troed ecolegol y pen (hectarau byd-eang) fesul awdurdod lleol⁴⁵.

Blaenau Gwent	3.1
Caerffili	3.1
Sir Fynwy	3.4
Casnewydd	3.2
Torfaen	3.1

Mae angen i ni fyw mewn ffordd sy'n lleihau'r ôl troed i un blaned fel nad ydym yn defnyddio'r adnoddau y bydd eu hangen ar genedlaethau'r dyfodol i gefnogi eu hunain. I wneud hyn, bydd angen i ni edrych ar ein systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth – mae llawer o'n dulliau presennol hefyd yn achosi newid yn yr hinsawdd.

Hefyd, mae patrymau defnydd yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd byd-eang ac mae angen i ni ddefnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur. Mae lleihau ac ailddefnyddio gwastraff yn un ffordd o ddefnyddio llai o adnoddau a sicrhau buddiannau cadarnhaol i bobl a byd natur.

Roedd y cyfraddau ailgylchu a gofnodwyd yng Ngwent yn 2019 yn hafal i gyfartaledd Cymru neu'n uwch. Fodd bynnag, bydd angen i ni newid i fodel economi gylchol lle na fydd gwastraff yn cael ei gynhyrchu yn y lle cyntaf a lle y caiff pethau eu defnyddio am gymaint o amser â phosibl, er mwyn i ni fod yn ddiwasttraff a byw yn unol ag ôl troed un blaned.

Mae'r ffordd rydym yn teithio yn cael effaith negyddol ar ein hamgylchedd ac ar iechyd pobl, gan newid ein hinsawdd a chynyddu llygredd, a bydd angen i ni ystyried ffyrdd gwahanol o ddiwallu ein hanghenion teithio.

Ansawdd aer



Yng Ngwent, mae **dwyr** Ardal Rheoli Ansawdd Aer yng Nghaerffili, **dwyr** yn Sir Fynwy ac **11** yng Nghasnewydd. Cafodd pob un ohonynt eu datgan felly oherwydd lefelau nitrogen deuocsid o ganlyniad i lygredd traffig ar ffyrdd prysur a thraffyrdd⁴⁶.

Mae tai yn gwneud cyfraniad sylweddol at allyriadau, yn benodol mewn perthynas â'r gofyniad i wresogi gofod a dŵr gan ddefnyddio tanwyddau ffosil.

Byddai llwyddo i drawsnewid y system ynni yn unig yn creu swyddi newydd ac yn sicrhau bywoliaeth i bobl Gwent. Hefyd, gall cyrraedd targedau datgarboneiddio wella ansawdd bywyd i gymunedau sy'n dioddef o effeithiau andwyol ansawdd aer gwael.

Mae angen i ni fyw mewn ffordd sy'n lleihau'r ôl troed i un blaned fel nad ydym yn defnyddio'r adnoddau y bydd eu hangen ar genedlaethau'r dyfodol i gefnogi eu hunain. I wneud hyn, bydd angen i ni edrych ar ein systemau **bwyd, ynni a thrafnidiaeth** – mae llawer o'n dulliau presennol hefyd yn achosi newid yn yr hinsawdd. Mae angen i ni ystyried dulliau newydd sy'n hybu iechyd a ffyniant natur yn hytrach na rhoi pwysau ar y byd naturiol. Drwy ddiogelu a chyfoethogi adnoddau naturiol Gwent fel hyn, byddwn yn gadael gwaddol cadarnhaol i genedlaethau'r dyfodol.

6 Llesiant diwylliannol

Mae gan Went dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol sy'n cynnwys uchafbwyntiau megis Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, Gŵyl Fwyd y Fenni a rhan o lwybr arfordir enwog Cymru. Mae'n gartref i gaerau Rhufeinig, cestyll a phlastai, a chwrs golff Cwpan Ryder.

Gall diddordebau diwylliannol ddod â phobl o wahanol oedrannau ynghyd. Gwyddom y gall yr anghydraddoldebau sy'n bodoli yn rhai o'n cymunedau ei gwneud hi'n anodd i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, ac mae fforddiadwyedd a mynediad yn broblemau penodol.

Ar wahân i Gasnewydd, sef yr ardal fwyaf amlddiwylliannol o blith yr holl awdurdodau lleol, prin yw'r amrywiaeth ethnig yn y rhanbarth. Gallai'r diffyg amrywiaeth ethnig hwn ei gwneud hi'n anos i bobl ddeall eu diwylliannau a'u credoau ei gilydd, gan fod llawer llai o gyfleoedd i ryngweithio â phobl o gefndiroedd amrywiol.

Siaradwyr Cymraeg	Mae canran y bobl 3 oed a throsodd ledled Gwent sy'n gallu siarad Cymraeg yn dal yn is na chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r pum awdurdod lleol ⁴⁷ .
--------------------------	--

Bydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y rhanbarth hefyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ymdeimlad pobl o le a llesiant.

Mae cyfyngiadau COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sector chwaraeon, y sector diwylliannol a'r sector twristiaeth a'r bobl sy'n gweithio ynddynt.

Gwelwyd lleihad sylweddol yng nghyfraniad economaidd twristiaeth yng Ngwent yn ystod 2020, i £297m (70% yn llai na 2019), a lleihad o 52% yng nghyfanswm nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan wariant twristiaeth uniongyrchol o gymharu â 2019⁴⁸.

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi bod gan yr economi greadigol ran i'w chwarae o ran sicrhau ffyniant yr economi ranbarthol yn y dyfodol ⁴⁹ a bod ganddi'r potensial i gynyddu'r cyfraniad economaidd a wneir gan y sector diwylliannol, ond mae hyn yn debygol o gymryd sawl blwyddyn.

Mae angen i ranbarth Gwent sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r sylfaen gyflogaeth gywir i gael budd o'r cyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â sector yr economi greadigol, a gall fod cyfleoedd i arallgyfeirio busnesau neu ddechrau busnesau newydd.

Gall gwirfoddoli fod yn gyfle i gwrdd â phobl newydd a dysgu sgiliau newydd.

Gall y ffaith bod y boblogaeth yn heneiddio yng Ngwent olygu y bydd mwy o bobl ar gael i gefnogi eu cymunedau drwy wirfoddoli.

Mae'r lefelau gwirfoddoli uchaf yng Ngwent i'w gweld yn Sir Fynwy, a'r isaf ym Mlaenau Gwent. Gall cyfraddau gwirfoddoli fod yn gysylltiedig â'r amser sydd ar gael a'r rhyddid ariannol i wirfoddoli.

Mae amgylchedd naturiol eiconig Gwent yn rhan bwysig o'r arlwy ym meysydd diwylliant a thwristiaeth. Mae asesiad o risgiau newid hinsawdd y DU yn nodi risgiau i'r amgylchedd naturiol a threftadaeth yn sgil digwyddiadau tywydd eithafol a thanau gwyllt⁵¹. Gallai hyn effeithio ar y dirwedd leol ac asedau treftadaeth nodedig a'u gallu i gyfrannu at ein hanes diwylliannol cyffredin ac at yr economi ddiwylliannol.

Hefyd, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd economaidd yn y dyfodol sy'n deillio o dwristiaeth a gweithgarwch chwaraeon a hamdden awyr agored yn sgil tymereddau cynhesach sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.

Gwirfoddoli	% y bobl hŷn gwirfoddoli fesul awdurdod lleol ⁵⁰ .		
		2016	2019
	Blaenau Gwent	23.17	18.68
	Caerffili	23.19	23.65
	Sir Fynwy	36.10	32.34
	Casnewydd	26.52	24.40
	Torfaen	28.86	23.16

-
- ¹ Amcangyfrifon SYG o'r boblogaeth, canol 2019
- ² Data Awdurdodau Gwent ar anheddau. GeoPlace 2021
- ³ Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn seiliedig ar ddata 2018, Llywodraeth Cymru
- ⁴ Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn seiliedig ar ddata 2018, Llywodraeth Cymru
- ⁵ Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn seiliedig ar ddata 2018, Llywodraeth Cymru
- ⁶ Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn seiliedig ar ddata 2018, Llywodraeth Cymru
- ⁷ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019. Adroddiad canlyniadau. Llywodraeth Cymru.
- ⁸ MALIC 2019, Llywodraeth Cymru
- ⁹ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019. Adroddiad canlyniadau. Llywodraeth Cymru.
- ¹⁰ MALIC 2019, Llywodraeth Cymru
- ¹¹ Y Gofrestrfa Tir. 2020.
- ¹² Arolwg blynyddol o oriau ac enillion (ASHE), SYG, 2020
- ¹³ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Affordable-Housing/Provision/additionalaffordablehousingprovision-by-location-year>
- ¹⁴ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Affordable-Housing/Provision/additionalaffordablehousingprovision-by-location-year>
- ¹⁵ Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: Amcangyfrifon tlodi tanwydd ardaloedd lleol: crynodeb o'r gwaith modelu a'r canlyniadau
<https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ardaloedd-lleol-ebrill-2017-i-fawrth-2018>
- ¹⁶ UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report. Summary for Wales.
- ¹⁷ UK Climate Change Risk Assessment 2017, Synthesis report: priorities for the next five years. Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.
- ¹⁸ Cyfoeth Naturiol Cymru 2021.

- ¹⁹ Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru 2017
- ²⁰ Renewable and Low Carbon Energy Assessment Regional Summary. Yr Ymddiriedolaeth Garbon, Rhagfyr 2020
- ²¹ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019. Adroddiad canlyniadau. Llywodraeth Cymru.
- ²² MALIC 2019, Llywodraeth Cymru.
- ²³ MALIC 2019, Llywodraeth Cymru.
- ²⁴ Michael Marmot, Jessica Allen, Peter Goldblatt, Eleanor Herd, Joana Morrison (2020). Build Back Fairer: The COVID-19 Marmot Review. The Pandemic, Socioeconomic and Health Inequalities in England. Llundain: Y Sefydliad Tegwch Iechyd
- ²⁵ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019. Adroddiad canlyniadau. Llywodraeth Cymru.
- ²⁶ MALIC 2019, Llywodraeth Cymru
- ²⁷ Asesiad Strategol Gwent Mwy Diogel. Heddlu Gwent.
- ²⁸ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019. Adroddiad canlyniadau. Llywodraeth Cymru.
- ²⁹ MALIC 2019, Llywodraeth Cymru
- ³⁰ MALIC 2019, Llywodraeth Cymru
- ³¹ CYBLD 2020/21, <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Provision-of-Meals-and-Milk/pupilsaged5to15eligibleforfreeschoolmeals-by-localauthorityregion-year>
- ³² CYBLD 2020/21, <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupilsaged5andover-by-localauthorityregion-ethnicity>
- ³³ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Transport/rail/rail-transport/railpassengerjourneys-by-localauthority-year>
- ³⁴ MALIC 2019, Llywodraeth Cymru.

³⁵ MALIC 2019, Llywodraeth Cymru.

³⁶ MALIC 2019, Llywodraeth Cymru.

³⁷ Cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant, 16-64 oed, 2019. Cofrestr o Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth Nomis.

³⁸ UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report. Summary for Wales.

³⁹ UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report. Summary for Wales.

⁴⁰ Asesiad Sylfaenol o Safleoedd Gwarchodedig yn 2020, Cyfoeth Naturiol Cymru

⁴¹ Noder: Ni ddylid cyfuno'r gwerthoedd hyn i roi cyfanswm gan y bydd rhai eiddo'n wynebu perygl o fwy nag un ffynhonnell llifogydd

⁴² Ystadegau ar gyfer Cymru a Llywodraeth Cymru (2019), Ystadegau ar Ardaloedd Bach Amaethyddol (2002-2018), Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd yma: <https://llyw.cymru/ystadegau-ar-ardaloedd-bach-amaethyddol-2002-i-2018>

⁴³ Ystadegau ar gyfer Cymru a Llywodraeth Cymru (2019), Ystadegau ar Ardaloedd Bach Amaethyddol (2002-2018), Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd yma: <https://llyw.cymru/ystadegau-ar-ardaloedd-bach-amaethyddol-2002-i-2018>

⁴⁴ Ecological and Carbon Footprints of Wales - Update to 2011, Sefydliad Amgylcheddol Stockholm a GHD, Gorffennaf 2015

⁴⁵ Ecological and Carbon Footprints of Wales - Update to 2011, Sefydliad Amgylcheddol Stockholm a GHD, Gorffennaf 2015

⁴⁶ <https://airquality.gov.wales/cy/laqm/air-quality-management-areas>

⁴⁷ Cyfrifiad 2011

⁴⁸ Data STEAM GTS (UK) Ltd, Tachwedd 2021

⁴⁹ [Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)

⁵⁰ Arolwg Cenedlaethol Cymru

⁵¹ UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report. Summary for Wales.